# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 18 Hydref 2012** |
| Amser: | **09:30 – 14:00** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_18_10_2012&t=0&l=cy
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400002_18_10_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:
Craffu ar y gyllideb

Aelodau'r Cynulliad:

**Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**
**Mick Antoniw**
**Mark Drakeford**
**Russell George**
**Vaughan Gething**
**Llyr Huws Gruffydd**
**William Powell**
**David Rees**
**Antoinette Sandbach**

Tystion:

**Alun Davies, Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd**
**John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**
**Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol**
**Rob Hunter, Llywodraeth Cymru**
**Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru**
**Andrew Slade, Llywodraeth Cymru**
**Gill Bell, Y Gymdeithas Cadwraeth Forol**
**Dan Crook, WWF Cymru**
**Gareth Cunningham, RSPB Cymru**
**Beth Henshall, Ymddiriedolaethau Natur Cymru**

Staff y Pwyllgor:

**Alun Davidson (Clerc)**
**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**
**Nia Seaton (Ymchwilydd)**

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Keith Davies a Julie James ar gyfer y cyfarfod cyfan a gan William Powell a David Rees ar gyfer y sesiwn prynhawn. Roedd Ken Skates yn dirprwyo ar ran Keith Davies a Mark Drakeford yn dirprwyo ar ran David Rees.

## 2. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014 - Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd

2.1 Bu'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd a'i swyddogion yn ateb cwestiynau gan aelodau o'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu dadansoddiad o'r cam gorfodi mewn perthynas â'r gyfran o'r gyllideb a gaiff ei gwario ar erlyn.

## 3. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014 - Craffu ar waith Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

3.1 Bu Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy a'i swyddogion yn ateb cwestiynau gan aelodau o'r Pwyllgor.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r ffigur 'llyfr gwyrdd' ar gyfer materion systemau technoleg gwybodaeth y bydd yr un corff amgylcheddol newydd yn eu hetifeddu.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5.

## 5. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2014 - trafod y dystiolaeth

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a ddaeth i law a pha faterion yr oedd am ddwyn i sylw'r Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad.

5.2 Cafodd y Pwyllgor egwyl rhwng 12.00 ac 13.00.

## 6. Ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru - Tystiolaeth lafar gan Cyswllt Amgylchedd Cymru

6.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i'r goblygiadau i Gymru yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol.

6.2 Bu'r tystion yn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ar y polisi morol yng Nghymru.

6.3 Cytunodd Dan Crook i rannu gyda'r Pwyllgor yr adroddiad ar yr astudiaeth a gomisiwynwyd gan y WWF ar gyd-leoli parthau cadwraeth morol datblygiadau ynni adnewyddadwy.

## 7. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar 24 Hydref

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar 24 Hydref.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.